



PATAGONIA




Dr Hannah Sams
Adran y Gymraeg
Prifysgol Abertawe
h.l.sams@abertawe.ac.uk

TRAFOD

Pryd oedd y tro cyntaf i chi
glywed am Batagonia?

Wrth feddwl am Batagonia,
beth sy'n dod i'ch meddwl?



'Patagonia bell'

Gwenda Owen

Yn fintai gref yr aeth 'na rhai o'r cymoedd
Gan adael gwlad a chroesi dros y moroedd
Cyrraedd ar draeth Porth Madryn
Er mwyn i bawb gael cychwyn
Bywyd newydd ar dir y Wladfa draw.

'R'ôl croesi dros y don
Profwch hudoliaeth hon
Mae ias i'w gael o fynd i Batagonia bell

Gweld cariad at yr iaith
Wrth grwydro dros y paith
Y mae swynol hud o hyd i'w gael

ym Mhatagonia bell.

Wrth fynd ar daith hyd tiroedd Dyffryn Camwy
Cewch weld lle bu ein teidiau gynt yn tramwy
Rhaid oedi ychydig ennyd
Yn yr hen Gwm Hyfryd
Profi gwynfyd ar dir y Wladfa draw

Eu cariad at yr iaith Gymraeg sy'n ffynnu
Yr ieuanc sydd yn dangos awydd dysgu
Mae fflamau'r ddraig yn codi

A braf yw canu am obaith newydd ar din y Wladfa draw.

CNOI CUL

Yn ôl Robert Owen Jones yn Hir Oes i'r Iaith:

‘Gellid galw Gwladfa Patagonia yn un epig fawr ramantaidd yn hanes Cymru.

Dangosodd beth a ellid ei gyflawni, yn gymdeithasol, yn grefyddol, yn addysgol ac yn economaidd gan bobl a reolai eu bywyd a'u tynged eu hunain.’

NOD Y SESIWN

Gwyntyllu'r syniad 'rhamantaidd' – ai syniad rhamantaidd ydyw'r ddelwedd sydd gyda ni o'r Wladfa yn y bôn? Fe awn ati i wneud hynny trwy ofyn cyfres o gwestiynau:

-Pam?

-Pwy?

-Pryd?

-Sut?

-Beth?

PAM?

MICHAEL D. JONES

“Bydd yno gapel, ysgol a senedd a’r hen iaith fydd cyfrwng addoli, masnach, gwyddoniaeth, addysg a llywodraeth. Gwnaiff cenedl gryf a hunan-gynhaliol dyfu mewn gwladfa Gymreig.”



PAM?

Gormes grefyddol

Landlordiaeth

Rhesymau ieithyddol

NID Y WLADFA YM MHATAGONIA OEDD YR YMGAIS GYNTAF I SEFYDLU 'UTOPIA' CYMREIG

'Cambriol' – Newfoundland (1617)

Massachusetts, UDA – Bedyddwyr o Gymru (1662)

Pennsylvania, UDA – Crynwyr (1682)

'New Cambria' – Noca Scotia (1818)

'Cardigan' – New Brunswick (1819)

Ond fe lyncwyd y rhain i fewn i iaith, diwylliant a'r cymunedau o'u hamgylch.

LLYNCU IAITH

Sylwodd Michael D. Jones ar y duedd hon yn ystod ei gyfnod fel gweinidog yn UDA yn yr 1840au.

Esboniodd ei ofid yn *Y Cenhadwr Americanaidd* yn 1849:

“...nid colled am iaith yn unig a fydd colli ein hiaith, ond colled am ein moesau a’n crefydd i raddau pwysig fel y systia ein hanes fel pobl bob tu i’r Werydd...”

BETH OEDD YR ATEB, FELLY?

O fethiannau'r ymdrechion yn UDA a
Chanada fe ddysgwyd rhai gwersi pwysig.

Sianelu ei ymdrechion i mewn i un ardal.

Aeth Michael D. Jones i genhadu am y
Wladfa Gymreig ac yn un o'r cyfarfodydd
hynny fe lwyddodd i berswadio Lewis Jones
a Dafydd Hughes i'w helpu.

LLAWLYFR Y WLADYCHFA GYMREIG (1862)

Cyhoeddwyd gyda'r bwriad o godi diddordeb yn y mudiad i gredu sefydliad Cymreig ym Mhatagonia.

“Gallwn eich hysbysu mai ein dymuniad yw cael gwlad lle y gallwn gael llywodraethu ein hachosion mewnol yn gyfangwbl, heb ymyriad o eiddo un genedl arall yn ein pethau bydol a chrefyddol.’

YR ABWYD (*BAIT*): ECONOMAIDD

Sicrhau byd gwell mewn cyfnod o galedi economaidd.


Roedd llawer o'r rhai a ymfudodd yn dod o ardaloedd diwydiannol (*industrial*) neu ardaloedd cefn gwlad.

Roedd y freuddwyd o allu perchnogi (*own*) tir eu hunain yn apelio'n fawr.

YR ABWYD: CREFYDDOL AC IEITHYDDOL

Yn rhydd o orthrwm yn Eglwys

Yn bell o ddylanwad y Saesneg



Daeth y rhan fwyaf o'r ymfudwyr o ardaloedd cefn gwlad ac ardaloedd diwydiannol Cymru

Ar 31 o Fai 1865 gadawodd 'Y Mimosa' borthladd Lerwpl

Y MIMOSA

Hwylodd 156 0 bobl o borthladd Lerpwl

Cyrhaeddodd nhw ben y daith ar 28ain o Orffennaf 1865

REALITI CALED

<https://www.youtube.com/watch?v=kenrR7MRmak>

[2.19]



YR ARDAL

Yn ei lyfr, *This Way Southward* (1940; 66)
esbonia A.F. Tschiffely:

“At last, incredible as it seems, Patagonia came under consideration. At the time these regions were a kind of ‘no man's land’ without any white inhabitants living in it – from the Rio Negro to the Strait of Magellan, a distance close on a thousand miles. When one considers that the Indians were on the warpath and that they were still making incursions far into the province of Buenos Aires, the fact that Patagonia was considered for a Welsh settlement becomes all the more incredible, grotesque and foolhardy.”

CHARLES DARWIN - 1832


“This plain has a very sterile appearance, it is covered with thorny bushes and a dry looking grass and will forever remain nearly useless to mankind.”

DŴR

Rachel Jenkins

CLIP: 10.11

Dadnsoddi cerdd o gyfrol
Mererid Hopwood a Karen
Owen



CLIP FIDEO

6.07

<https://www.youtube.com/watch?v=MxL9cXrcIJc&t=1s>

BETH AM Y BRODORION?

Tehuelche



PERTHYNAS Y CYMRU A'R TEHUELCHÉ

Tehuelche wedi dysgu'r Cymru i fyw ar y
paith

Roedd y brodorion yn masnachu â'r Cymru
yn lle gorfod teithio yn bell i werthu pethau.

OND doedd pethau ddim yn fêl i gyd

CLIP: Rhaglen Huw Edwards

ADDYSG

Y Beibl oedd y gwर्सlyfr

Ysgolion Sul yn bwysig i ddechrau

Ond tyfodd yr awydd am ysgolion dyddiol Cymraeg

1868 –agorwyd ysgol Gymraeg yn Rawson gan R. J. Berwyn

1878 – Cyhoeddodd R. J. Berwyn werslyfr pwrpasol

Roedd hyn yn wahanol iawn i'r drefn yng Nghymru.

Parodd hyn am o leiaf 60 mlynedd cyn i lywodraeth yr Ariannin ymyrryd.

ROBERT OWEN JONES, *HIR OES I'R IAITH* (LLANDYSUL: GOMER, 1997), T. 295.

Os oedd ail hanner y ganrif yn gyfnod diffrwyth ac anodd i'r Gymraeg yng Nghymru, nid felly ym Mhatagonia. Yno ffynnodd y Gymraeg ac yn wir estynnwyd ei defnydd i gwmpasu pob agwedd ar fywyd y cymunedau. Y Gymraeg oedd yr unig iaith a drosglwyddid gan rieni i'w plant – yn famiaith ac yn brif iaith yr epil a aned yno. Yn rhydd o ddylanwadau erydol y Saesneg a'r ymagweddu negyddol a esgorai ar gymhlyg israddol, profodd y Gwladfawyr nad y Gymraeg oedd yn annigonol ar gyfer bywyd modern, ond yn hytrach y system wleidyddol, weinyddol ac addysgol a bwysai arni.

ROBERT OWEN JONES


“O safbwynt hanes y Gymraeg dangosodd Gwladfa Patagonia beth a allai ddigwydd i iaith leiafrifol a ystyrir yn gwbl ddiwerth, pan newidid rhagfarnau negyddol am ymagweddiadau cadarnhaol a hyderus.”

CLIP:

<https://www.youtube.com/watch?v=kenrR7MRmak>

40.10

A YW EICH DELWEDD O'R WLADFA WEDI
ÔL Y SESIWN HON?



‘PATAGONIA BELL’ GWENDA OWEN

Yn fintai gref yr aeth 'na rhai o'r
cymoedd

Gan adael gwlad a chroesi dros y
moroedd

Cyrraedd ar draeth Porth Madryn

Er mwyn i bawb gael cychwyn

Bywyd newydd ar dir y Wladfa draw.

'R'ôl croesi dros y don

Profwch hudoliaeth hon

Mae ias i'w gael o fynd i Batagonia bell

Gweld cariad at yr iaith

Wrth grwydro dros y paith

Y mae swynol hud o hyd i'w gael

ym Mhatagonia bell.

Wrth fynd ar daith hyd tiroedd Dyffryn
Camwy

Cewch weld lle bu ein teidiau gynt yn
tramwy

Rhaid oedi ychydig ennyd

Yn yr hen Gwm Hyfryd

Profi gwynfyd ar dir y Wladfa draw

Eu cariad at yr iaith Gymraeg sy'n
ffynnu

Yr ieuanc sydd yn dangos awydd dysgu

Mae fflamau'r ddraig yn codi

A braf yw canu am obaith newydd ar
din y Wladfa draw.